

# **CYNGOR TREF DOLGELLAU**

**RHYS R. WILLIAMS (BA HONS. GRAD I.C.S.A.)**  
Clerc i'r Cyngor      Clerk to the Council

Tan y Coed  
12 Nant y Gader  
Dolgellau  
Gwynedd LL40 1LB

## **Cylch Gorchwyl – Pwyllgor Cyllid Ar gyfer Cyngor Tref neu Gymuned yng Nghymru**

### **1. Enw**

Bydd y pwyllgor yn cael ei adnabod fel **Pwyllgor Cyllid Cyngor Tref Dolgellau**.

### **2. Diben**

Sefydlir y Pwyllgor Cyllid i gynghori a gwneud argymhellion i'r Cyngor ar faterion ariannol, gan gynnwys cyllidebu, gwariant, incwm, rheolaethau ariannol, a'r defnydd effeithlon o adnoddau'r Cyngor.

### **3. Cyfrifoldebau**

Bydd y Pwyllgor yn:

- Adolygu cyllideb flynyddol y Cyngor a gwneud argymhellion i'r Cyngor. (**Dim ond y Cyngor llawn all fabwysiadu'r gyllideb.**)
- Monitro incwm a gwariant yn erbyn y gyllideb drwy gydol y flwyddyn ariannol.
- Adolygu a gwneud argymhellion ynghylch gofyniad y praesept blynyddol.
- Ystyried ceisiadau am grantiau, rhoddion neu gymorth ariannol a gwneud argymhellion i'r Cyngor.
- Adolygu'r rheoliadau ariannol a'r gweithdrefnau rheolaeth fewnol o bryd i'w gilydd.
- Goruchwylio trefniadau ar gyfer archwilio mewnol ac allanol.
- Ystyried unrhyw faterion ariannol eraill a gyfeirir ato gan y Cyngor.

### **4. Pwerau**

Pwyllgor ymgynghorol yw'r Pwyllgor oni bai bod y Cyngor wedi dirprwyo pwerau penodol iddo'n ffurfiol o dan Adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Rhaid cofnodi unrhyw bwerau dirprwyedig yn glir yng nghynllun dirprwyo'r Cyngor.

### **5. Aelodaeth**

Bydd y Pwyllgor yn cynnwys **9 cynghorydd**, a benodir yn flynyddol gan y Cyngor yn ei Gyfarfod Blynyddol.

## **6. Cadeirio**

Bydd y Pwyllgor yn ethol Cadeirydd o blith ei aelodau yn flynyddol. Yn absenoldeb y Cadeirydd, bydd yr aelodau sy'n bresennol yn ethol aelod i lywyddu'r cyfarfod hwnnw.

## **7. Cyfarfodydd**

Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod o leiaf bob chwarter ac yn ychwanegol yn ôl yr angen.

## **8. Cworwm**

Y cworwm fydd **5 aelod**, sef o leiaf draean o gyfanswm yr aelodaeth.

## **9. Adrodd**

Bydd y Pwyllgor yn adrodd i gyfarfod arferol nesaf y Cyngor. Cyflwynir cofnodion neu argymhellion i'w hystyried a'u cymeradwyo lle bo angen.

## **10. Tryloywder ac Ymddygiad**

Bydd aelodau'n cydymffurfio â Chod Ymddygiad y Cyngor, yn datgan buddiannau fel sy'n ofynnol, ac yn cadw at egwyddorion agoredrwydd ac atebolrwydd o dan ddeddfwriaeth llywodraeth leol Cymru.

## **11. Adolygiad**

Bydd y Cylch Gorchwyl hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol gan y Cyngor a'i ddiwygio yn ôl yr angen.

**I'w Fabwysiadu gan Gyngor Tref Dolgellau ar: 7 Gorffennaf 2026**

**Dyddiad Adolygu:** Gorffennaf 2027